

SL(5)635 – Rheoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl) (Cymru a Lloegr) 2020 (Cyflwynwyd yn Saesneg yn unig)

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu cynllun seibiant dyledion ar gyfer pobl sydd â phroblemau dyled.

O dan y cynllun, caiff pobl gymwys sydd â phroblemau dyled ac sy'n cael cyngor proffesiynol ar ddyled gyfnod o 60 diwrnod pan fydd llog, ffioedd a thaliadau yn cael eu rhewi a bydd camau gorfodi yn destun saib. Yn aml, cyfeirir at y cyfnod moratoriwm hwn yn foratoriwm 'Lle i Anadlu'.

Mewn perthynas â phobl sy'n cael triniaeth ar gyfer argyfwng iechyd meddwl, mae'r cynllun yn sefydlu llwybr arall lle gellir cael mynediad at fesurau diogelu moratoriwm, ac yn sicrhau bod y mesurau diogelu ar waith drwy gydol eu triniaeth argyfwng.

Gweithdrefn

Gwneir y Rheoliadau hyn gan y Trysorlys, ond rhaid eu gosod gerbron Senedd Cymru a dau Dŷ Senedd y DU, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ym mhob un o'r Senedd-dai hynny.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Rydym yn nodi ac yn croesawu bwriad y Rheoliadau hyn, sef cymell mwy o bobl â phroblemau dyled i gael cyngor proffesiynol ar ddyled, ac i wneud hynny'n gynt, a'u galluogi hefyd i gael mynediad at y datrysiad dyled mwyaf priodol iddynt, o ystyried eu hamgylchiadau unigol.

Rydym hefyd yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan y Trysorlys o dan Ran 1 o Ddeddf Canllawiau Ariannol a Hawliadau 2018, y rhoddodd y Cynulliad ei gydsyniad deddfwriaethol iddi ar 13 Chwefror 2018. Yn ystod y ddadl ar gydsyniad a gynhaliwyd gan y Cynulliad, dywedodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd, y geiriau a ganlyn mewn perthynas ag unrhyw gynllun seibiant dyledion yn y dyfodol:

Mae ffordd bell i fynd, ond byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r SFGB, pan gaiff ei sefydlu, yn ogystal â darparwyr cyngor a rhanddeiliaid eraill, i ddylanwadu ar ddatblygiad unrhyw gynllun a phenderfynu a yw'n diwallu anghenion Cymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru:



- (a) nodi sut mae'r cynllun seibiant dyledion wedi cael ei ddatblygu i fodloni gofynion Cymru;
- (b) cadarnhau a yw'n fodlon nad yw'r Rheoliadau hyn yn dod i rym yn gyffredinol tan 4 Mai 2021.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

27 Hydref 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee